Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**
Canolfan Ddinesig,
Oystermouth Road,
Abertawe SA1 3SN
www.gov.uk

**TREFNIADAU NEWYDD AR GYFER CEFNOGI PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG AC ANABLEDDAU**

Annwyl Riant/Ofalwr

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ADYTA)**

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau yng Nghymru'n newid. Mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno system fwy hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau.

Bydd y system newydd yn sicrhau:

- Y nodir anghenion yn gynnar, y rhoddir sylw iddynt yn gyflym ac y cefnogir pob dysgwr i gyflawni ei botensial.
- Mae ein gweithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus wrth nodi anghenion a defnyddio strategaethau i helpu dysgwyr.
- Mae'r dysgwr yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud ac mae ef a'i rieni a'i ofalwyr yn bartneriaid cyfartal yn ei ddysgu. Gelwir hyn yn Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Mae'r system newydd yn cael ei **chyflwyno'n raddol** dros yr ychydig flynyddoedd nesaf (2021 - 2024) yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dyma rai o'r negeseuon allweddol am y newidiadau hyn a'r hyn y gallant ei olygu i chi a'ch plentyn.

- Mae'r system raddedig gyfredol o Flynyddoedd Cynnar/Gweithredu Ysgol, Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu Ysgol a Mwy a Datganiadau'n cael ei disodli dros y 3 blynedd nesaf. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag angen

dysgu ychwanegol (ADY) a nodwyd y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ar ei gyfer Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn disodli Cynlluniau Addysg Unigol (CAUau) a Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

- Cyfrifoldeb yr ysgol fydd y rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Unigol ond mewn rhai amgylchiadau, gall yr awdurdod lleol fod yn gyfrifol amdanynt. Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am CDUau i blant dan oedran ysgol gorfodol y mae arnynt angen y rhain, er enghraifft, yn y blynyddoedd cynnar.
- Mae'r Ddeddf yn disgwyl i bawb sy'n ymwneud â'ch plentyn e.e. Lleoliadau gofal plant, Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gydweithio i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.
- Bydd rhagor o gyfleoedd i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr gyfrannu at Gynlluniau Datblygu Unigol.
- Disgwylir y bydd cydweithio'n agosach yn helpu i osgoi anghytundebau.
- Cymerir yr holl gamau rhesymol i sicrhau y bydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei darparu yn Gymraeg, os oes angen.

**<u>Negeseuon allweddol</u>**

Bydd y disgyblion a fydd yn symud i'r system newydd y flwyddyn academaidd hon (2022-2023) yn cynnwys:

- Disgyblion sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi gan y Blynyddoedd Cynnar/Weithredu gan yr Ysgol neu'r Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn y dosbarth Meithrin, y dosbarth Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
- Disgyblion sydd â Datganiad AAA yn y dosbarth Meithrin, y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.

**Bydd yr ysgol yn eich hysbysu pryd y bydd eich plentyn yn trosglwyddo i'r system newydd trwy ysgrifennu atoch yn uniongyrchol ac yn eich gwahodd i ddod i gyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.**

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sy'n rhoi cyflwyniad i'r system ADY newydd ar gael ar y dolenni hyn:

https://hwb.gov.wales/news/articles/20686965-8669-40ac-bdc5-599f4a4dfe8b

https://hwb.gov.wales/repository/publishers/9fb2afc9-6408-4aa3-9474-3c745006535b/resource/c8033263-aaa0-42fc-9511-ab7d33bd8084/cy

Mae ALl Abertawe wedi penodi tîm o weithwyr achos ADY i gefnogi teuluoedd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cysylltwch â CADY yr ysgol am ragor o wybodaeth.

Gellir cael taflenni sy'n esbonio'r newidiadau mewn rhagor o fanylder gan yr ysgol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, ewch i wefan Awdurdod Lleol Abertawe yn www.abertawe.gov.uk/anghenionDysguYchwanegol

Mae gan eich ysgol ei gwybodaeth ei hun ar ei gwefan yn

https://www.ygg-gellionnen.co.uk/

Yn gywir,



Helen Morgan-Rees

Cyfarwyddwr Addysg